**SENEDD CYMRU : WELSH PARLIAMENT**

**GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR GWRW A THAFARNDAI / CROSS-PARTY GROUP ON BEER AND THE PUB**

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020 : Annual General Meeting 2020**

**21 Hydref 2020 : 21 October 2020 at 12:00**

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar blatfform Zoom, yn sgil pandemig y coronafeirws.

Yr Aelodau a oedd yn bresennol:
Jack Sargeant (Cadeirydd), Mike Hedges, Huw Irranca-Davies, Llyr Gruffydd, Mark Isherwood.

Hefyd yn bresennol:
John Pockett (Ysgrifennydd), ynghyd â 29 o randdeiliaid ar-lein yn cynrychioli'r diwydiant bragu, grwpiau tafarn a landlordiaid unigol, grwpiau tafarn, cwrw a lletygarwch, Clwstwr Cwrw Cymru a Grŵp Trawsbleidiol Senedd San Steffan ar Gwrw a Thafarndai.

Croesawodd Jack Sargeant bawb i'r cyfarfod, a chadarnhaodd fod hysbysiad ynghylch y cyfarfod cyffredinol blynyddol wedi cael ei gyhoeddi yn y modd cywir.

Ethol y Cadeirydd:
Jack Sargeant, a gafodd ei gynnig gan Mike Hedges AS a'i eilio gan Llyr Gruffydd AS, oedd yr unig berson i gael ei enwebu. Yn sgil hynny, cadarnhawyd ei benodiad fel Cadeirydd y grŵp.
Ethol yr Ysgrifennydd:
John Pockett, a gafodd ei gynnig gan Llyr Gruffydd AS a'i eilio gan Huw Irranca-Davies, oedd yr unig berson i gael ei enwebu. Yn sgil hynny, cadarnhawyd ei benodiad fel Ysgrifennydd y grŵp.

Ymddiheuriadau:
Helen Mary Jones AS, Alun Davies AS a Nick Ramsay AS.

Nodwyd fod cofnodion y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf wedi bod ar gael ar wefan y grŵp trawsbleidiol ers mis Ebrill 2019.

Cafodd y cyfarfod cyffredinol blynyddol ei gau gan y Cadeirydd am 12:15.

Trafodaeth agored:
Gwahoddodd y Cadeirydd Mark Grant o Grŵp Clwstwr Cwrw Llywodraeth Cymru, a Paul Hegarty o grŵp trawsbleidiol San Steffan, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp.

Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth agored lle cyfrannodd nifer o'r randdeiliaid a oedd yn bresennol. Cymeradwyodd y grŵp gynnig bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU er mwyn cefnogi ymdrechion grŵp trawsbleidiol San Steffan i dynnu sylw at sefyllfa'r diwydiant cwrw a thafarndai yn ystod y pandemig presennol. Bydd copi o'r llythyr dan sylw yn cael ei anfon at Lesley Griffiths AS, un o Weinidogion Llywodraeth Cymru, a Dafydd Elis-Thomas AS, y Dirprwy Weinidog Twristiaeth.

Mae dyddiad cyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol i'w gadarnhau, yn dibynnu ar y pandemig.

Daeth y trafodion i ben am 13:00.

JACK SARGEANT AS : MS
Cadeirydd : Chair

JOHN POCKETT
Ysgrifennydd : Secretary